Llawlyfr i Fyfyrwyr

14-19

wrexham network

rhwydwaith wrecsam

Ysgol Bryn Alun

Ysgol Clywedog

Ysgol Maelor, Llannerch Banna

Ysgol y Grango

yale

Coleg Iâl, Wrecsam

Yale College, Wrexham

St.Christopher's School

Darland School

Ysgol Morgan Llwyd

Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff

Rhosnesni Wrexham

Ysgol Rhiwabon

Mae Awdurdod Addysg Lleol Wrecsam, eich ysgolion a'r Rhwydwaith 14-19 wedi cydweithio i ymestyn y dewis o Lwybrau Dysgu sydd ar gael i chi. Mae'r rheolau isod i bob myfyriwr pan fyddant mewn safle heblaw am eu hysgol arferol ar brynhawn dydd Mawrth.

- Rydym yn disgwyl i chi fod yn bresennol ym mhob sesiwn os ydych am gael y budd mwyaf o'r cwrs. Os nad ydych yn gallu dod i'r sesiwn, dylai'ch rhieni/gwarcheidwaid gysylltu â'r ysgol a fydd yn rhoi gwybod i'r ganolfan.
- Rydym yn disgwyl i chi ymddwyn ar eich gorau bob amser. Bydd rheolau arferol eich ysgol yn berthnasol. Byddwch yn cael gwybod am unrhyw reolau penodol sy'n berthnasol i'ch cwrs yn y ganolfan yr ydych yn ei mynychu. Rhaid i chi ddilyn rheolau iechyd a diogelwch. NID YDYCH YN CAEL YSMYGU YN UNRHYW UN O'R CANOLFANNAU – Y TU MEWN NA THU ALLAN.
- Mae'n bwysig iawn eich bod yn mynd ag offer priodol a dillad arbenigol i bob sesiwn.
- Rhaid i chi wisgo eich gwisg ysgol yn yr ysgol bob bore dydd Mawrth. Bydd y trefniadau ar gyfer y prynhawn yn amrywio gan ddibynnu ar y cwrs.
- Mae gwaith cartref yn rhan bwysig o rai cyrsiau a rhaid i chi ei gwblhau erbyn y dyddiad priodol.
- Bydd yr ysgol yn cael gwybod os byddwch yn camymddwyn ar y bysiau neu yn y ganolfan.
- Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei anfon at eich rhieni/gwarcheidwaid; bydd yn cynnwys manylion eich presenoldeb, ymdrech a'ch cyraeddiadau ar y cwrs. Bydd adroddiadau ar gyfer cyrsiau TGAU yn cael eu paratoi ym mis Ionawr a'u dosbarthu erbyn hanner tymor. Bydd adroddiadau ar gyfer cyrsiau galwedigaethol ym Mlwyddyn 10 yn cael eu paratoi ym mis Mai a'u dosbarthu ym mis Mehefin. Bydd ail adroddiad yn cael ei baratoi ym mis Ionawr ym Mlwyddyn 11.
- Bydd eich ysgol yn cael copi o'r adroddiad ac adroddiad wythnosol am eich presenoldeb ac unrhyw broblemau sydd wedi codi.
- Rydych chi'n gyfrifol am eich eiddo bob amser. Ni fydd yr ysgol, y darparwr na'r rhwydwaith yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod.
- Byddwch yn cael gwybod am y trefniadau ar gyfer arholiadau ac asesiadau allanol yn ôl yr angen. Mae gan yr ysgol a'r darparwr hawl i beidio â chofrestru unrhyw ymgeisydd sydd â phresenoldeb gwael neu agwedd anfoddhaol tuag at waith cwrs.
- Mewn argyfwng, gwnewch yn siŵr fod gan eich ysgol rifau ffôn diweddar ar gyfer eich rhieni/gwarcheidwaid.
- Mae'r sesiynau'n gorffen am 4.15pm. Rhaid i chi wneud eich trefniadau eich hunain i fynd adref. Gall myfyrwyr yn safleoedd Ffordd y Bers a Sant Christopher ddychwelyd i brif safle Coleg Iâl os ydynt eisiau gwneud hynny (mae cludiant ar gael yno). Bydd myfyrwyr sy'n astudio Garddwriaeth yn Ysgol Maelor, Llannerch Banna yn cael cyngor ar wahân.
- Bydd trefniadau ar gyfer teithio i'r safle'n cael eu dosbarthu ar wahân.